
Dymunwn cyn terfynu alw sylw fy nghydwladwyr, y rhai sydd yn edrych ymlaen am well prisiau am wartheg ystor, at ffeithiau a ddylent gael eu sylw. Allforiwyd o Canada i'r wlad yma yn ystod y chwe mis y mae yr Afon St. Lawrence yn rhydd, yn 1890, 120,654 o benau, neu ddwbl y nifer a allforiwyd yn 1888. Mae pob tebygolrwydd hefyd yr anfonir cyflenwad o haidd bragu i'r wlad yma cyn pen ychydig flynyddoedd. Nid wyf ychwaith yn gweled rheswm gan y rhai a ddywedant y bydd Canada yn fuan mor boblog fel y bydd anghen am ei chynnch i borthi y trigolion. Bydd y cynnydd a wneir mewn gwybodaeth amaethyddol gyda'r manteision sydd ganddynt yn Canada, yn ddigon cyflym i gyfarfod a'r galwad cartrefol, fel y bydd yr hyn a gynnyrchir trwy lafur yr ymfudwyr yn rhydd i'w allforio; ac os gellir tynu casgliad oddiwrth lafur un brodor, o Iceland, a ymfudodd chwe blynedd yn ol, yr hwn eleni heb gynorthwy ond un llangc a fydd yn alluog i werthu 1,800 o fusheli o wenith, nis gall neb ddirnad beth fydd ei chynyrch hyd y nod yn y pum mlynedd nesaf.

Gan fy mod wedi cael mantais am ragor na chwarter canrif wrth brisio tiroedd a'u cynnych yng Nghymru, yr wyf yn tybio y gallaf yn ddibetrus feiddio cynnyg fy marn ar yr hyn sydd o bwys i'm cydwladwyr yn eu cyfyngder presenol, ac hefyd a all fod o bwys i drigolion Canada. Ymdrechais i roddi yr olwg waethaf ar gynnychu gwenith yn Canada drwy gymeryd cyfartaledd y pedair blynedd diweddaf am na chaed gwaeth un ohonynt yn y deuddeng mlynedd blaenorol. Ar y llaw arall gwelir fy mod yn gosod cynnyrch y wlad yma ar ei eithaf hyd yn nod ar y tir goreu. Credaf pe cymerid cyfartaledd manwl o bob ardal lle tyfir gwenith, nad yw yn fwy na deng hobed yr erw.



TEISI GWENITH YN MANITOBA.